Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Ein Harglwyddes

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Ein Harglwyddes yn gymuned gynhwysol, sy'n rhoi pwyslais cryf ar les a datblygiad personol disgyblion. Mae gan yr uwch dîm arweinyddiaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n hyrwyddo profiadau dysgu diddorol mewn amgylchedd dysgu cefnogol a gofalgar. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ymddygiad da a pharodrwydd i ddysgu ymhlith disgyblion.

Mae arweinwyr yn cynnal gweithgareddau hunanwerthuso rheolaidd i fesur llwyddiant y gwelliannau, sy'n cynnwys cyfraniadau gan staff, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach. Mae'r rhain yn rhoi dealltwriaeth eang i arweinwyr o berfformiad cyffredinol yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw prosesau hunanwerthuso a blaenoriaethau gwella yn canolbwyntio'n ddigon cryf ar wella deilliannau disgyblion.

Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i sicrhau darpariaeth cwricwlwm eang a chytbwys. Mae'r staff ymroddgar yn canolbwyntio ar hyrwyddo dysgu a lles disgyblion yn bwrpasol. Maent yn gweithio'n ddiwyd gyda rhieni ac asiantaethau allanol ac yn gwybod yn dda beth yw anghenion y disgyblion a'u cymuned. Mae staff yn defnyddio'r amgylcheddau ystafell ddosbarth a'u hardal leol yn effeithiol i hyrwyddo cwricwlwm pwrpasol, ond nid yw'r adnoddau a'r cyfleoedd dysgu wedi'u datblygu'n ddigonol.

At ei gilydd, mae rhediad a llif y gwersi yn gweddu'n dda i anghenion dysgu disgyblion. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, lle mae diffyg cysondeb yn ansawdd yr addysgu a gydag adborth y rhan fwyaf o athrawon, nid yw athrawon yn herio disgyblion i gyflawni'r camau nesaf yn eu dysgu yn ddigon effeithiol.

Yn yr achosion gorau, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau'n bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn fodelau iaith medrus ac yn holi disgyblion yn dda. Mae hyn yn arwain at gynnydd da ym medrau siarad, darllen, rhifedd a digidol disgyblion. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd heriol i gymhwyso'u medrau ar lefelau priodol ar draws y cwricwlwm, yn enwedig eu medrau ysgrifennu estynedig.

Mae staff yn meithrin perthnasoedd gwaith agos â disgyblion. Maent yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a theimladau yn synhwyrol, sy'n datblygu eu parch am bobl eraill yn llwyddiannus. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol effeithiol, sy'n creu ymwybyddiaeth dda o'u hardal leol a gwerthfawrogiad cryf o ddiwylliannau eraill.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:**

A1. Miniogi prosesau hunanwerthuso a blaenoriaethau gwella i ganolbwyntio'n uniongyrchol ar wella deilliannau disgyblion

A2. Sicrhau cysondeb mewn defnyddio arferion addysgu effeithiol, a darparu adborth buddiol i herio dysgu pob un o'r disgyblion

A3. Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau ar lefelau sy'n addas o heriol ar draws y cwricwlwm

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/01/2026